**(HCC 605)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 7 Tachwedd 2014**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Will Haresign, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Prys Morgan, Graham Probert, Glyn Roberts, Richard Rogers, Richard Tudor, Wyn Williams a John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Mark Alexander a David Morris, Llywodraeth Cymru

**Yno hefyd:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Siôn Aron Jones (Rheolwr Datblygu'r Diwydiant)
Alan Morris (Rheolwr Cyfathrebu)
Laura Pickup (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Dr Julie Finch yn ei swydd fel Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol a David Morris, Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Medi 2014*

Bu'r Cadeirydd mewn cinio a drefnwyd gan HCC fel rhan o daith wedi'i noddi gan yr UE ar gyfer newyddiadurwyr o'r Almaen, yr Eidal a'r DG.

Bu'r Cadeirydd yn cynrychioli HCC yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas y Cyflenwyr Cig Annibynnol (AIMS) a gynhaliwyd yn Nottingham.

Ym mis Medi 2014, recordiwyd cyfres newydd o *Pryd o Sêr,* wedi'i chyflwyno gan Dudley Newbury, ar gyfer S4C. Roedd y Cadeirydd yn westai mewn cinio lle cafodd Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI eu coginio a'u gweini gan sêr teledu. Byddai'r rhaglen yn cael ei darlledu yn ystod mis Ionawr 2015.

Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod o'r Grŵp Ardoll Cig Coch a drefnwyd gan HCC ar 29 Medi 2014 (gweler eitem 10).

Hefyd, roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol yng nghinio'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a gynhaliwyd yr un noson.

*Hydref 2014*

Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Gynhadledd Flynyddol Undeb Amaethwyr Cymru yn IBERS, Aberystwyth.

Cyfarfu'r Cadeirydd a Rheolwr Datblygu'r Diwydiant â James Parsons, Cadeirydd Beef and Lamb New Zealand, yn ystod ymweliad â Chig Calon Cymru.

Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ag allforwyr a chwsmeriaid allweddol yn ystod Ffair Fasnach SIAL ym Mharis.

Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Grŵp Bio-wyddoniaeth Trosglwyddo Gwybodaeth yng Nghaeredin.

*Tachwedd 2014*

Ar 5 Tachwedd 2014, cynrychiolwyd HCC gan y Cadeirydd a Rheolwr Datblygu'r Diwydiant mewn trafodaeth ynglŷn â Lles Anifeiliaid o amgylch y bwrdd gyda Phwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng Nghynhadledd NFU Cymru yn Llanelwedd.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gary Haggaty a Helen Minnice-Smith (Llywodraeth Cymru).

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Trafodaeth a allai ddigwydd mewn perthynas â Rheoli Credyd - John Brereton, Prys Morgan a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 5 Medi 2014 (HCC 595)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 5 Medi 2014 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru – Statws Enw Bwyd Gwarchodedig i is-frandiau Cig Oen yng Nghymru*

Roedd Rheolwraig Datblygu'r Farchnad wedi cyfarfod ag Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru i drafod y ceisiadau a fwriedid ar gyfer Enw Bwyd Gwarchodedig (PFN) ac Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO) mewn perthynas a chig coch.

Roedd Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymgymryd â gwerthusiad trylwyr o Enwau Bwyd Gwarchodedig yn gyffredinol, a oedd yn cynnwys gwaith ymchwil i ddealltwriaeth ac adnabyddiaeth y defnyddwyr o frandiau. Byddai HCC yn cael ei hysbysu am ddatblygiadau yn hyn o beth.

*Ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI i Ddefnyddwyr 2014*

Nodwyd yn y cyfarfod blaenorol na fyddai'r is-bennawd "Bred in Heaven" yn cael ei gyfieithu'n llythrennol i'r Gymraeg. Cadarnhaodd Rheolwraig Datblygu'r Farchnad y byddai'r hysbyseb Gymraeg yn cynnwys yr is-bennawd "Llawn Daioni" yn lle hynny.

*Proses werthuso i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr*

Roedd y Cadeirydd wedi cyfarfod â phob unigolyn yn ei dro a diolchodd i'r Bwrdd am gymryd rhan.

*Y Bwrdd Cyfarwyddwyr - Hyfforddi*

Gwahoddwyd y Bwrdd i fynd ar daith o amgylch cyfleusterau Celtic Pride Castell Howell am 1.30pm ddydd Mercher 12 Tachwedd 2014.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 596)*

Cymerwyd bod yr adroddiad wedi'i ddarllen.

*Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2007–2013: Cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi – amrywiad o'r prosiect Datblygu Technegol, "Cael gwared ar rwystrau rhag cofnodi electronig ar ffermydd"*

Rhoddwyd manylion am yr uchod gan y Rheolwr Polisi a Strategaeth Corfforaethol.

Roedd HCC wedi derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer y prosiect gan Lywodraeth Cymru trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig 2007 – 2013.

Nod y prosiect peilot oedd annog ffermwyr i gofnodi eu defaid trwy ddulliau electronig wrth:-

- Darparu gwybodaeth a hyfforddiant ymarferol i alluogi ffermwyr defaid i ddewis yr offer cywir ar gyfer eu diadelloedd a'i ddefnyddio'n hyderus

- Talu £500 i ffermwyr i'w helpu i wneud y gwaith

- Casglu ymateb yn gyson yn ystod 2015 er mwyn canfod rhwystrau ymarferol.

Byddai'r prosiect yn darparu gwybodaeth ymarferol ynghylch cofnodi electronig (EID) a sut gellid defnyddio'r systemau i gael data cywir i wella perfformiad ac effeithlonrwydd y ddiadell.

Cafodd gwefan benodol ei chreu ar gyfer y prosiect ac roedd rhagor o wybodaeth ar gael yn www.ewemanage-IT.org.uk

*Cyllid gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI*

Dal yr eitem yn ôl - cyfrinachedd masnachol

*Sioe Fasnach SIAL 19 – 23 Hydref 2014*

Bu presenoldeb HCC yn y sioe fasnach yn llwyddiannus iawn, yn rhannol oherwydd yr holl allforwyr a oedd yno. Cynhaliwyd derbyniad ar y stondin, ac roedd y Dirprwy Weinidog yn bresennol.

Yn ystod y sioe, cafodd DVD newydd am allforio ei lansio gan HCC, a chafodd dipyn go lew o gyhoeddusrwydd. Byddai dolen i'r DVD yn cael ei hanfon at y Bwrdd.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 597)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Medi 2014 (HCC 598)*

Cyflwynwyd yr uchod gan y Rheolwr Strategaeth Gorfforaethol.

d. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 599)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Cynhadledd Flynyddol HCC –13 Tachwedd 2014*

Cafwyd crynodeb o'r trefniadau gan y Rheolwr Cyfathrebu :-

Roedd dros 200 o bobl wedi cadarnhau y byddent yn bresennol yn y gynhadledd a gynhelir ym Mharc y Scarlets ddydd Iau 13 Tachwedd 2014.

Y siaradwyr fyddai:-

Y Dirprwy Weinidog
Kate Humble - cyflwynydd teledu ac awdur sy'n ffermio yn Sir Fynwy
Jeff Martin – Asiant HCC yn yr Eidal
Siôn Aron Jones - Rheolwr Datblygu'r Diwydiant yn HCC
Shaun Hall Jones a Thomas Jones - Ysgolorion HCC

Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer dau sesiwn gweithdy yn seiliedig ar Wybodaeth am y Farchnad ac arddangosiad o gigyddiaeth.

*Y Ffair Aeaf 1-2 Rhagfyr 2014*

Byddai HCC unwaith eto yn cynnal derbyniad amser brecwast yn Hafod a Hendre am 8am ddydd Llun 1 Rhagfyr 2014. Cadarnhawyd y byddai'r Dirprwy Weinidog yn bresennol.

Cafodd amryw o weithgareddau eu trefnu, gan gynnwys cystadleuaeth Carcas Cig Eidion ac arddangosiadau coginio gan Elwen Roberts a Dudley Newbury. Hefyd, byddai lle wedi'i neilltuo ar y stondin ar gyfer cynghori a chofrestru ffermwyr ar gyfer y prosiect "Dileu rhwystrau rhag defnyddio systemau adnabod electronig ar ffermydd".

7. **I dderbyn diweddariad 6-misol am Dargedau Cynllun Busnes HCC ar gyfer 2014 / 2015 (HCC 600)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Roedd y ddogfen yn amlinellu perfformiad HCC yn ystod y chwe mis cyntaf, mewn cymhariaeth â'r Cynllun Busnes 2014 / 2015.

Nodwyd bod 11% o'r targedau (wedi'u hamlygu mewn gwyrdd) wedi'u cyflawni eisoes. Roedd y blychau a oedd wedi'u hamlygu mewn glas yn dangos nad oedd perfformiad wedi'i gofnodi am na fyddai unrhyw weithgaredd yn dechrau tan ail hanner y flwyddyn ariannol.

8. **I gytuno ar gyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a'r costau adennill ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2015 / 2016 (HCC 601)**

Cyflwynwyd y papur gan y Prif Weithredwr.

Argymhellwyd i'r Bwrdd y dylai HCC gadw'r cyfraddau Ardoll a'r costau adennill presennol ar gyfer 2015 / 2016:-

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru (ar gyfer 2014/2015)** | | | |
|---|---|---|---|
| *(y pen)* | **Cyfanswm, y Casgliad Ardoll** | **Cyfanswm wedi'i Dalu gan y Cynhyrchwr** | **Cyfanswm wedi'i dalu gan y Lladd-dy/Allforiwr** |
| **Defaid** | £0.83 | £0.63 | £0.20 |
| **Gwartheg** | £5.67 | £4.34 | £1.33 |
| **Lloi** (hyd at 68kg) | £0.17 | £0.085 | £0.085 |
| **Moch** | £1.30 | £1.05 | £0.25 |

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer (2014/2015)** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi'i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

Cytunodd y Bwrdd i dderbyn yr argymhelliad. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai'n ddoeth ailystyried y cyfraddau ardoll cyn blwyddyn ariannol 2016 / 2017.

Câi'r argymhelliad ar gyfer y cyfraddau ardoll ar gyfer 2015/2016 ei gyflwyno i'r Dirprwy Weinidog ar gyfer ystyriaeth.

9. **<u>I dderbyn diweddariad llafar am Adolygiad HCC o'r Sector Cig Eidion yng Nghymru</u>**

Cwblhawyd yr adroddiad "Adolygiad o'r Sector Cig Eidion yng Nghymru" a gomisiynwyd gan HCC ac a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru.

Câi'r cyhoeddiad ei lansio a châi'r canfyddiadau eu trafod mewn digwyddiad i'r diwydiant yng Nghaerdydd ar 27 Tachwedd 2014.

Byddai'r adroddiad yn cael ei rannu â'r Bwrdd maes o law.

10. **<u>I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>**

Cafwyd crynodeb gan y Prif Weithredwr o gyfarfod y Grŵp Ardoll Cig Coch (AHDB, HCC, LMCNI a QMS) ar 29 Medi 2014:-

Yn y cyfarfod, cydnabu AHDB bryderon QMS a HCC ynghylch y dylanwad roedd symud da byw yn ei gael ar ddosbarthu'r Ardoll rhwng y tri sefydliad.

Ar hyn o bryd roedd y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu AHDB yn datgan yn glir na ellid defnyddio'r Ardoll ar wartheg, defaid a moch sy'n cael eu lladd yn Lloegr ond mewn perthynas â diwydiant da byw Lloegr, ac na ellid trosglwyddo arian Ardoll i QMS a HCC.
Trafodwyd papur â dewisiadau a gafodd ei baratoi gan AHDB.

Er mwyn symud ymlaen, cytunwyd gan bawb y dylid gwerthuso'r papur dewisiadau cyn y cyfarfod nesaf ar 29 Ionawr 2015. Roedd y gwaith hwn wedi dechrau a rhoddid manylion i'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.

11. **<u>I dderbyn drafft o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru 2014 – 2020 (HCC 602)</u>**

Cymerwyd bod y Cynllun Gweithredu wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Gwnaed cynnydd sylweddol yn ôl y weledigaeth ac amcanion a nodwyd yn y cynllun presennol a lansiwyd yn 2009. Fodd bynnag, nodwyd bod llawer i'w wneud i gynnal a datblygu cyfraniad y sector i'r economi gwledig.

Roedd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu gyda golwg ar heriau a chyfleoedd sylweddol a gafodd eu nodi, a'r nod oedd bwrw ymlaen a bod yn ddigon hyblyg i ymateb i amodau newidiol er mwyn darparu targedau cadarn, uchelgeisiol a realistig.

Y blaenoriaethau strategol a nodwyd oedd:-

- Cynyddu'r galw am gynhyrchion cig coch Cymru (a thrwy hynny gynyddu gwerthiant ac enillion)

- Gwneud y cynhyrchu'n fwy effeithlon (a thrwy hynny gynyddu cyflenwad o ansawdd) ynghyd â chynnal amgylchedd a thirwedd Cymru.

Cwblhawyd yr ymgynghoriad anffurfiol â'r diwydiant. Cynhelid yr ymgynghoriad ffurfiol yn ystod Ionawr 2015. Byddai drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer ystyriaeth yn y cyfarfod ar 6 Mawrth 2015 a byddai'n cael ei lansio'n swyddogol yn ystod haf 2015.

12. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ynghylch datblygu Rhaglen Cig Coch ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020</u>**

Rhoddwyd y sefyllfa ddiweddaraf i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr:-

Roedd HCC yn dal i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru er mwyn cymryd camau yn ôl sector ar gyfer y diwydiant cig coch yng Nghymru, sef cyfres o ymyriadau

gyda golwg ar y farchnad a gâi eu targedu'n fanwl ac a fyddai'n canolbwyntio ar fusnes. Byddent yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi gyfan ac yn gofalu'n benodol am anghenion strategol y sector cig coch yng Nghymru.

Roedd cyfarfodydd anffurfiol i drafod yr uchod yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda'r diwydiant.

Cytunodd y Bwrdd mewn egwyddor â'r cynnig bod angen gweithio ar y cyd fel diwydiant integredig.

Câi'r Bwrdd ei diweddaru ynghylch y mater hwn.

13. **I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid**

Nodwyd bod newid Gweinidogion y Llywodraeth wedi arwain at oedi cyn cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad gan y Dirprwy Weinidog.

Roedd disgwyl cyhoeddiad yn fuan a gellid cael gweithredu cychwynnol ddiwedd 2015 neu ddechrau 2016.

14. **Papurau er gwybodaeth**

a. *Cyfleoedd ar gyfer sector cig coch Cymru yn yr Iseldiroedd (HCC 603)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

b. *Ymateb gan Gadeirydd yr Awdurdod Safonau Bwyd (FSA) ynghylch hollti carcasau cig oen (HCC 604)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Byddai'r Prif Weithredwr yn trafod y mater ymhellach â Chyfarwyddwr FSA Cymru, Nina Purcell, mewn cyfarfod yn y dyfodol.

15. **Unrhyw fater arall**

*Grŵp Trafod y Diwydiant ar Raddio Carcasau*

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid ffurfio Grŵp Trafod y Diwydiant ar Raddio Carcasau er mwyn adolygu systemau graddio awtomataidd (ar gyfer Cig Eidion a Chig Oen). Byddai HCC yn trefnu cyfarfod cychwynnol yn y dyfodol agos, a byddai hyn yn gyfle i ystyried a datblygu barn y gadwyn cyflenwi cig coch ar y mater.

*Y Ganolfan Amaeth–Dechnoleg ar gyfer Arloesedd mewn Da Byw sy'n Cnoi Cil (CIRL)*

Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DG ei Strategaeth Technolegau Amaethyddol yn y DG, gan ddweud: “dylai’r DG arwain y byd mewn Technoleg Amaethyddol, Arloesedd a Chynaladwyedd; manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu a mabwysiadu technolegau newydd a chyfredol, cynhyrchion a gwasanaethau i wella cynhyrchiant a thrwy hynny gyfrannu at ddiogelwch bwyd yn fyd eang a datblygu rhyngwladol.”

Yr arian a oedd ar gael oedd buddsoddiad o £90m dros bum mlynedd i sefydlu nifer o ganolfannau ar gyfer Arloesedd Amaethyddol.

Dywedwyd wrth y Bwrdd fod Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn ymwneud â chynnig am gyllid, ac anogwyd HCC i ymgysylltu â’r broses er mwyn sicrhau persbectif DG-gyfan.

*<u>Siôn Aron Jones</u>*

Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i Siôn Aron Jones, am ei gyfraniad dros y blynyddoedd i amaethyddiaeth Cymru ac am ei ymdrechion clodwiw yn ei swydd fel Rheolwr Datblygu'r Diwydiant yn HCC. Dymunodd y Cadeirydd yn dda i Siôn a’r teulu yn y dyfodol yn Awstralia.

*<u>Pennaeth Gweithrediadau</u>*

Fel yr hysbyswyd y Bwrdd o’r blaen, dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi adolygu adnoddau a strwythur y staff. Roedd yr adolygiad yn amserol o ystyried ymadawiad Rheolwr Datblygu'r Diwydiant.

Fel canlyniad, roedd y Prif Weithredwr wedi penderfynu bwrw ymlaen a chreu dau lwyfan o fewn strwythur HCC, sef y naill ar gyfer Cyflawni Gweithredol a’r llall ar gyfer Polisi a Gwasanaethau Corfforaethol.

Fel rhan o’r ad-drefnu, cafodd swydd Pennaeth Gweithrediadau ei chreu. Byddai hon â chyfrifoldeb rheoli ar gyfer gweithredu Datblygu’r Diwydiant, Datblygu’r Farchnad a Chyfathrebu.

Cafodd y swydd ei hysbysebu, a’r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fyddai 14 Tachwedd 2014.

16. **<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>**

Dydd Gwener 16 Ionawr 2015.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**